# Cefnogi unigolion i barhau i symud

## Trosolwg

Mae'r safon hon yn nodi’r gofynion wrth weithio gydag unigolion i’w cefnogi i barhau i symud. Mae hyn yn cynnwys paratoi ar gyfer gweithgareddau i barhau i symud a chefnogi unigolion yn ystod y gweithgareddau hyn. Mae hefyd yn cynnwys cyfrannu at fonitro’r gweithgareddau a gallu unigolion i symud.

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1. cael caniatâd a chael gafael ar wybodaeth am ofynion unigolion o ran symudedd
2. gweithio mewn partneriaeth ag unigolion ac eraill i gytuno ar ffyrdd i barhau i symud yn unol â dewisiadau ac anghenion, a chynlluniau gofal neu gymorth
3. gwneud yn siŵr bod cymhorthion symud yn ddiogel ac yn barod i'w defnyddio
4. paratoi amgylcheddau ar gyfer gweithgareddau symud
5. cefnogi unigolion i ddewis a gwisgo esgidiau a dillad sy'n addas ar gyfer gweithgareddau symud
6. cefnogi unigolion i ddefnyddio cymhorthion symud yn unol â chynlluniau gofal neu gymorth
7. annog a chefnogi annibyniaeth unigolion gyda gweithgareddau symud
8. cefnogi unigolion ac eraill i roi adborth ar sut mae gweithgareddau symud wedi cwrdd â'u dewisiadau a'u hanghenion i barhau i symud
9. cyfrannu at adborth ar sut mae cymhorthion symud a gweithgareddau wedi bodloni dewisiadau ac anghenion unigolion i barhau i symud
10. gweithio mewn partneriaeth ag unigolion ac eraill i nodi a chytuno ar unrhyw newidiadau i weithgareddau symud
11. cyfrannu at gofnodion ac adroddiadau sydd eu hangen i gynorthwyo unigolion i barhau i symud
12. myfyrio ar sut y gwnaethoch gyflawni eich rolau a'ch cyfrifoldebau i gefnogi unigolion i barhau i symud, gydag adborth gan eraill

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

1. sut mae cael gafael ar wybodaeth am unigolion a’u gofynion o ran symudedd, a’i hadolygu
2. sut mae’r corff yn symud mewn perthynas â symudedd
3. cyfyngiadau unigolion o ran symudedd a'r effaith y gallai hyn ei chael
4. dylanwad diwylliant a chefndir ar weithgareddau symud a gofynion unigolion
5. sut mae cyflyrau iechyd yn gallu effeithio ar symudiadau a symudedd
6. dylanwad niwrowahaniaeth ac anghenion ychwanegol ar allu unigolion i symud
7. manteision defnyddio cymhorthion symud addas a chefnogi annibyniaeth mewn gweithgareddau symud
8. pwysigrwydd sicrhau bod cymhorthion symud yn lân, yn gweithio’n dda, ac yn cael eu defnyddio'n ddiogel
9. y mathau o ddyfeisiau ac adnoddau digidol a all gynorthwyo unigolion i barhau i symud
10. sut mae defnyddio cymhorthion symud a chael yr wybodaeth ddiweddaraf am newidiadau
11. dulliau o roi cymorth i unigolion wrth symud
12. pwysigrwydd amgylchedd ac arwynebau cerdded diogel wrth symud
13. sut mae defnyddio egwyddorion sy'n ystyriol o drawma i gynorthwyo unigolion i barhau i symud
14. sut mae gweithio mewn partneriaeth ag unigolion ac eraill i adolygu a rhoi adborth ar gymhorthion symud a gweithgareddau
15. sut y gall newidiadau i ddewisiadau, amodau ac amgylchiadau unigolion effeithio ar y cymhorthion symud a ddefnyddir a’r dewis o ran gweithgarwch
16. pwysigrwydd urddas, caredigrwydd a thosturi wrth gynorthwyo unigolion i barhau i symud
17. sut mae cefnogi rheoleiddio emosiynol yn ystod gweithgareddau symud
18. y cofnodion a’r adroddiadau sydd eu hangen i gefnogi unigolion i barhau i symud
19. y gofynion cyfreithiol, y safonau ymarfer, y fframweithiau a’r canllawiau perthnasol ar gyfer cynorthwyo unigolion i barhau i symud
20. gofynion y gweithle mewn perthynas â chydraddoldeb, amrywiaeth, cynhwysiant a hawliau wrth gefnogi unigolion i barhau i symud
21. sut mae gweithio mewn partneriaeth ag eraill i gefnogi unigolion i barhau i

symud
22. sut mae ymateb i faterion a phryderon a allai godi yn ystod y gweithgaredd symud
23. sut mae eich profiadau personol a'ch rhagfarn ddiarwybod yn gallu effeithio wrth gefnogi unigolion i barhau i symud, a sut i fynd i'r afael â hyn
24. rôl goruchwyliaeth, ymarfer myfyriol, a dysgu a datblygu wrth gefnogi unigolion i barhau i symud

## Geirfa

Mae'r eirfa ar gyfer y Safon Alwedigaethol Genedlaethol hon ar gael ar wefan Sgiliau Gofal a Datblygu.

Cefnogi unigolion i barhau i symud

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | Skills for Care & Development |
| **Fersiwn rhif** | 1 |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 31 Ion 2026 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 31 Ion 2031 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | Skills for Care and Development |
| **RCU gwreiddiol** | HSCCLD214 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant |
| **Cyfres/Set** | Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant, Dysgu a Datblygu |
| **Geiriau Allweddol** | Symud Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant, Dysgu a Datblygu |